## Atodiad i Bwyllgor Craffu Gwynedd

Mae'r cyfnod yma wedi bod yn heriol iawn i holl ysgolion Gwynedd ac i ni fel gwasanaeth. Er hyn, mae llawer o ddatblygiadau cyffrous a diddorol wedi digwydd mewn ysgolion ar draws y sir wrth i bawb addasu eu dulliau i geisio sicrhau bod y disgyblion yn derbyn y ddarpariaeth gorau posib mewn amser cythryblus.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn mae'r Gwasanaeth Dysgu a GwE wedi cydweithio yn fwriadus e.e. drwy gyflwyno a chefnogi prosesau Asesu Risg a chydweithio ar egwyddorion cytûn 'parhau i ddysgu' drwy gyfrwng y Grŵp Dysgu ac Addysgu. Roedd negeseuon lefel uchel i'r ysgolion cynradd yn cael eu rhannu a'u trafod drwy gyfarfodydd rheolaidd y GYDCA gydag arweiniad pellach, penodol yn cael eu trafod ar lefel dalgylch neu ysgol unigol. Mae'r cyswllt a'r cyfathrebu yn gryf rhwng yr ysgolion â GwE. Yn yr ysbryd o weithio gyda'n gilydd i wynebu heriau'r pandemig, bu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE hefyd yn cefnogi mewn hybiau gofal ysgolion pan oedd capasiti yn brin er mwyn helpu ysgolion i aros ar agor, a sicrhau parhad mewn darpariaeth a gofal i blant y sir. Mae cefnogaeth benodol wedi ei theilwra i anghenion pob ysgol ac mae'r gweithredu dilynol yn gadarn iawn. Yn ôl adroddiad Estyn yn Ionawr 2021 "cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i ategu'r dysgu yn eu hysgol.."

Mae cefnogi lles a llesiant wedi bod yn brif flaenoriaeth yn ein gwaith ni dros y cyfnod dan sylw. Mae Ymgynghorwyr GwE wedi bod yn cynnal cysylltiadau unigol cyson â phenaethiaid ( drwy gyfarfodydd rhithiol neu drwy sgyrsiau ffôn) gan gynnig cefnogaeth fel bo angen. Mae amlder y cyswllt wedi amrywio yn ôl adnabyddiaeth o anghenion y penaethiaid, eu hamgylchiadau penodol a'u dymuniad. Pan laciwyd y cyfyngiadau ac yn unol ag asesiadau risg perthnasol, cynhaliwyd ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb gyda phenaethiaid oedd yn dymuno i ni wneud hynny, gyda bron bob un ohonynt yn werthfawrogol o'r gefnogaeth ac yn gweld gwerth i'r ymweliadau.

Mae ceisio sicrhau nad yw'r Gymraeg yn colli ei thir wedi bod ar flaen meddwl pob un ohonom yn ystod y cyfnod yma ac mae GwE a'r Awdurdod wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi ysgolion i geisio sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae adnoddau penodol wedi eu rhannu ac ar gael i'r holl ysgolion yng 'Nghanolfan Cefnogaeth GwE - e.e. Blaenoriaeth Cynllun Datblygu Ysgol parod er mwyn datblygu'r Gymraeg, adnoddau i hybu llafaredd, adnoddau modelu iaith ac arweiniad i gefnogi rhieni.

Mae enghreifftiau niferus o ysgolion yn cefnogi rhieni ble nad ydynt yn siarad Cymraeg adref er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn parhau i glywed yr iaith dros y cyfnod. Mae'r 'rhain yn cynnwys staff ysgolion yn darllen straeon pob nos i blant neu rannu fideos i gefnogi datblygiad iaith lafar drwy Google Classroom neu athrawon eraill yn recordio cyflwyniadau ac yn cynnwys cyfarwyddiadau dwyieithog i'w gwersi o bell.

**Cynradd:**

Yn gyffredinol yn y cynradd derbyniodd bron pob ysgol sylw tebyg gan eu YCG, gan nad oes ysgol gynradd yng Ngwynedd o dan unrhyw weithredu pellach gan Estyn. Rhoddwyd ffocws penodol, ychwanegol fodd bynnag i'r ychydig ysgolion oedd wedi dod allan o fonitro yn lled ddiweddar ac i'r ysgolion rheini ble roedd pennaeth newydd neu bennaeth mewn gofal. Er enghraifft mae un YCG dalgylch wedi bod mewn cyswllt aml â phennaeth newydd gan sicrhau ei fod o a'r staff yn ymdopi â'r sefyllfa ac yn llwyddo i roi blaenoriaeth i les a pharhau i gynnal y dysgu. Mae rapport dda wedi ei sefydlu yn fuan gyda'r pennaeth yma ac roedd yn gallu dwyn ar amser a phrofiad yr ymgynghorydd i ymdopi â thymor cyntaf anodd. Defnyddia YCG hefyd eu hadnabyddiaeth o ysgol a phennaeth i gysylltu â chynnig cefnogaeth yn amlach os oedd unrhyw bryder am lesiant neu amgylchiadau anodd wedi codi oherwydd effaith y firws. Mewn sefyllfa fel hyn roedd yr YCG er enghraifft yn cynnig arweiniad ar fodelau dysgu o bell posib i'r athrawon a rhannu adnoddau dysgu cyfunol ac arferion da fyddai yn addas i gynnal addysg y disgyblion.

Yn gynnar yn y pandemig daeth yn amlwg bod angen i ysgolion fod yn dysgu o bell am gyfnod estynedig. Golyga hyn rhannu tasgau addysgol gyda disgyblion er mwyn iddynt eu cyflawni o gartref. Arweiniad GwE oedd i flaenoriaethu lles ond hefyd i sicrhau gweithgareddau hwyliog oedd yn datblygu sgiliau, oed briodol, gan ddefnyddio yr amgylchedd ac adnoddau o gwmpas y cartref. Yn ystod y cyfnod yma hyrwyddwyd gydweithio rhwng ysgolion i leihau baich, er enghraifft bu grwpiau o athrawon o rai dalgylchoedd dan arweiniad GwE yn cwrdd i rannu arferion da o ran dysgu o bell a pha gyfryngau digidol oedd wedi gweithio yn orau i sicrhau ymrwymiad y dysgwyr. Roedd yn gyfle i athrawon wyntyllu syniadau fesul cyfnod allweddol, i ymateb i bryderon cyffredin ac i gynnig cefnogaeth i'w gilydd gan awgrymu datrysiadau posib. Rhannwyd nifer o enghreifftiau o arferion da gyda ysgolion a dalgylchoedd drwy'r YCG a gwelwyd effaith hyn ar y gweithredu gyda ysgolion yn dilyn ac yn datblygu'r un syniadau yn lwyddiannus.

Ar gyfer Medi, pan fydd blaenoriaethau cynlluniau datblygu ysgolion yn cael eu llunio yn arferol, gwelodd GwE drwy'r YCG lleol bod patrwm amlwg o flaenoriaethu cychwynnol tebyg iawn gan nifer o ysgolion Gwynedd. Penderfynwyd felly gynnig templedi o flaenoriaethau enghreifftiol i ysgolion er mwyn osgoi gwaith gweinyddol mewn cyfnod ble roedd sylw y pennaeth ar gael y disgyblion a'r staff yn ôl yn saff. Mabwysiadwyd ac addaswyd rhai o'r blaenoriaethau enghreifftiol gan y rhan fwyaf o'r ysgolion a defnyddiwyd nhw yn effeithiol drwy'r tymor cyntaf.

Pan ddechreuodd disgyblion fynd yn ôl i'r ysgolion yn raddol, ac yn enwedig pan gododd y bwgan o swigod yn gorfod ynysu, daeth dulliau dysgu cyfunol i sylw. Golyga hyn baratoi'r staff, disgyblion a'r rhieni at gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol ac o fod yn dysgu a chyd-ddysgu o bell. Datblygodd timau o GwE nifer o themâu trawsgwricwlaidd enghreifftiol o weithgareddau cyfoethog i athrawon oedd yn datblygu'r defnydd o ddysgu cyfunol. Defnyddiodd un dalgylch er enghraifft rai o'r syniadau dysgu cyfunol yma, ac arbenigedd digidol yr YCG, i ddod at ei gilydd i gyd greu adnoddau cyfoethog trawsgwricwlaidd ar y thema 'Dewch i Gymru'. Mae'r adnodd yma wedi arwain at ddatblygu sgiliau digidol a chydweithio'r disgyblion gan hefyd eu paratoi at ddysgu mewn cyfnod clo pellach. Daeth grwpiau o athrawon o ardal arall at ei gilydd i gyd-weithio i ddatblygu meysydd penodol o ddysgu cyfunol, defnyddiwyd dosbarth rhithiol i rannu adnoddau a chynnig awgrymiadau ar dasgau ac unedau'r naill a'r llall. Trwy gydweithio fel hyn datblygwyd medrau digidol yr athrawon yn ogystal â gwella'r defnydd o dechnoleg a meddalwedd gan gyfoethogi profiadau'r dysgwyr.

Mewn cyfnod mor anodd ble 'roedd sefyllfa ysgol yn gallu newid o un wythnos i'r llall cododd y posibilrwydd o orfod ynysu neu o gyfnodau clo pellach di-rybudd. Fe luniodd GwE felly gynlluniau enghreifftiol er mwyn i ysgolion ragbaratoi ar gyfer parhau'r dysgu. Golyga hyn bod angen blaengynllunio i sicrhau bod y sgiliau, y wybodaeth a'r offer priodol gan y staff, disgyblion a'r rhieni i fod yn gallu troi at ddysgu o bell fel bo'r angen. Defnyddiodd un ysgol er enghraifft y cynlluniau yma i ymateb yn llwyddiannus i gyfnod pan fu rhaid i nifer o ddosbarthiadau ynysu am bythefnos, roedd themâu o adnoddau trawsgwricwlaidd yn barod yn rhithiol ganddynt gyda'r disgyblion a'r rhieni yn ymwybodol o sut i gael mynediad o gartref o'r bore cyntaf.

**Uwchradd:**

Ers y cyhoeddiad yn yr Haf y byddai ysgolion yn ail-agor, a'r angen brys i sicrhau y gellid cynnal a darparu'r dysgu ar batrwm 'dysgu cyfunol' - bu pwyslais dwys ar draws pob ysgol uwchradd ar uwch sgilio staff iddynt gael y sgiliau priodol i gael disgyblion i ddysgu'n ddigidol yn effeithiol. Gwnaed hyn yn ffurfiol drwy ddyddiau hyfforddiant, hyfforddiant anffurfiol a gwirfoddol yn aml gan athrawon tu allan i'r diwrnod ysgol, a gan athrawon wrth eu gwaith bob dydd. Bu dyddiau hyfforddiant ysgol yn gymorth i ysgolion ac athrawon baratoi am yr heriau hefyd. Rydym wedi cefnogi'r hyfforddiant hwn yn GwE drwy rannu syniadau am ddysgu cyfunol mewn fforymau penaethiaid, fforymau arweinwyr dysgu ac addysgu, a thrwy y fforymau pynciol, a chefnogi hyfforddiant digidol drwy arddangos adnoddau Hwb fel Screencastify a Flipgrid, a hynny ar ben y trafodaethau unigol ag arweinwyr ac athrawon. Ceir modelau dysgu ac amrywiol adnoddau ar ganolfan adnoddau GwE hefyd, ac mae ysgolion yn eu defnyddio. Cafwyd cefnogaeth dda gan ysgolion i'r sesiynau

hyn, a bu'r niferoedd yn uchel. Yn sgil y symud mwy diweddar i ddysgu o bell, mae cefnogaeth o ran dysgu byw yn cael ei gynnig.

Gydol y pandemig mae GwE wedi cynnig cefnogaeth gadarn i'r ysgolion a chefnogaeth unigryw ychwanegol i'r ysgolion hynny oedd ei angen, gan gynnwys yr ysgolion sydd mewn categori dilyniant Estyn, gyda thrafodaethau rheolaidd rhwng yr uwch dimau rheoli a'r YCG yn sail i gynlluniau cefnogaeth. Mae rhwydweithiau pynciau craidd wedi parhau i gyfarfod dan arweiniad yr YCG pynciol sydd wedi rhoi cyfle i ymgynghorwyr roi sesiynau hyfforddiant pellach i benaethiaid ac athrawon yr adrannau, ynghyd â chyfle i rannu arferion a thrafod syniadau o ran darpariaeth yn ystod y cyfnod yma.

Ochr yn ochr â hyn, bu pwyslais ar gefnogi yr ystod arddulliau dysgu ac addysgu sy'n cynnig eu hunain i'r model dysgu cyfunol. Mae'r trafodaethau hyn wedi arwain at ddyfnhau dealltwriaeth ac at wella arferion mewn sawl sefyllfa e.e. sut i gwestiynu yn effeithiol , sut i adrodd yn ôl ac ati. Teg nodi bod dysgu digidol wedi bod yn newydd i ni gyd, ac mae'r naid dysgu broffesiynol o ganlyniad wedi bod yn anferthol. Mae sgiliau digidol y staff ar draws y sir wedi datblygu yn syfrdanol ac mae'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn cyfnod cymharol fyr yn drawiadol iawn. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan ymgynghorwyr GwE, swyddogion yr ALl a gan Estyn yn ystod yr arolwg thematig.

Mae ysgolion yn defnyddio hyblygrwydd wrth ddarparu dysgu cyfunol. Mae rhai ysgolion yn dewis ffrydio rhai gwersi, neu rannau o wersi yn fyw i grwpiau o ddisgyblion; mae eraill wedi defnyddio dull mwy 'cyfunol' - rhai gwersi byw, rhywfaint o ddysgu anghydamserol drwy gyfrwng fideos wedi'u recordio o flaen llaw neu PowerPoint a thasgau drwy'r rhith ddosbarth. Mae gan bob ysgol bethau da iawn i'w ddweud am yr ymdrech gan staff addysgu, eu hymrwymiad i ddysgwyr a'u parodrwydd i addasu i ddulliau addysgu newydd. Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion wedi nodi problemau gydag isadeiledd systemau TG sydd yn ei dro wedi llesteirio ymdrechion i ddarparu gwersi byw. Mae'r Awdurdod a'r ysgolion wedi cydweithio i geisio sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at ddyfais a chyswllt i'r we o gartref.

Mae ysgolion wedi addasu i anghenion dysgwyr ac athrawon dros y cyfnod o ran sut maent yn mynd i'r afael â'r dysgu i ddisgyblion sydd yn yr ysgol, sydd wedi gorfod ynysu neu sydd wedi gorfod gweithio am gyfnodau estynedig o gartref. Mae'r rhan fwyaf o uwch dimau rheoli yn sicrhau bod adborth gan y disgyblion a'u rhieni yn bwydo'r cynllunio ar gyfer Dysgu Cyfunol ac yn gwneud addasiadau i'w darpariaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau.

Yn sgil effaith y pandemig ar sgiliau sylfaenol dysgwyr a'r angen i gyflymu'r dysgu, mae pecyn adnoddau cynhwysfawr wedi ei ddatblygu i gefnogi athrawon i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae sawl ysgol wedi manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant i allu gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau hyn yn eu hysgolion. Mewn rhai ysgolion penodol, mae ymgynghorwyr wedi cynnal hyfforddiant pellach i sicrhau cefnogaeth i ystod o staff dysgu sydd ynghlwm â'r gwaith hwn gan gynnwys arweinwyr canol, athrawon a chymorthyddion.

Mae strategaeth ymgysylltu â dysgwyr cadarn iawn wedi bod yn sylfaen i'r addysgu. Caiff presenoldeb mewn gwersi ei fonitro'n drylwyr drwy amryfal systemau gyda rhai ysgolion wedi sefydlu timau o unigolion, yn cynnwys aelodau o UDRh, athrawon, cymorthyddion a staff gweinyddol i gysylltu gyda'r dysgwyr a'u rhieni os nad oedd y dysgwyr yn mynychu. Mae sawl esiampl hefyd lle mae Cymorthyddion yn parhau i gefnogi disgyblion ADY i gwblhau tasgau gyda'r mwyaf bregus yn cael mynediad i'r ysgol i gael cymorth penodol gyda'u gwaith.

Mae Penaethiaid yn cydnabod bod amrywiaeth mewn ansawdd yn parhau oddi fewn ac ar draws ysgolion ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r gwasanaeth i sicrhau cysoni profiadau i ddysgwyr.

**Arbennig**

Fel eu cyfoedion yn yr ysgolion prif lif mae'r ysgolion arbennig wedi derbyn arlwy o gefnogaeth ac arweiniad gan ymgynghorwyr GwE drwy gydol y cyfnod anodd yma. Mae staff yr ysgolion wedi bod yn gweithio yn hynod o galed a diflino drwy'r pandemig gan gynnig lefel uchel iawn o gefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc arbennig yma a'u teuluoedd. Mae lles holl gymuned yr ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth i'w cynlluniau a'u darpariaeth mewn cyfnod heriol iawn. Mae'r cyfathrebu rheolaidd a meddylgar gyda rhieni a gofalwyr wedi bod yn elfen arbennig o gryf ganddynt.

Crëwyd, dilynwyd ac addaswyd asesiadau risg cynhwysfawr corfforaethol ac unigol i sicrhau bod y disgyblion yn cadw'n saff ac yn gallu ail gychwyn mynychu'r ysgolion o Fedi. Er yr holl heriau cymhleth ac anodd llwyddwyd i gynnal yr addysgu gan ddefnyddio elfennau megis dysgu cyfunol a dysgu carlam o Ganolfan Cefnogaeth GwE i ymarfer a datblygu y sgiliau craidd.

Trwy'r cyfnod yma mae'r ysgolion wedi llwyddo gyda arweiniad gan eu YCG i barhau â'r daith ddiwygio addysg gan sicrhau datblygiad proffesiynol yr holl staff a sicrhau datblygiad drwy gydweithio effeithiol gyda'u cyd-ysgolion. Mae'r arweinwyr a'u staff wedi llwyddo yn ddiflino i ddarganfod atebion hynod arloesol a chadarnhaol er mwyn sicrhau parhad yn y dysgu i'w holl blant a phobl ifanc.

**Y camau nesaf**

Bwriada'r rhan fwyaf o ysgolion ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau digidol, yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. Mae paratoi at y cwricwlwm newydd a'r diwygiadau ADY sydd ar y gweill yn flaenoriaeth i bob ysgol. Mae ysgolion hefyd yn cynllunio ar gyfer sut orau i ddefnyddio Cynnig Proffesiynol GwE i gefnogi'r meysydd hyn. Bydd GwE yn darparu cyfuniad o gymorth generig ac unigryw i gefnogi ysgolion ddatblygu dull dysgu cyfunol ymhellach.

Caiff ysgolion cynradd ac uwchradd gyfle i rannu adnoddau maent wedi'u cyd-lunio i helpu sicrhau cyfoethogi'r ddarpariaeth orau posib. Yn y sector gynradd, mae'r ysgolion yn parhau i gydweithio o fewn eu dalgylchoedd i greu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu cyfoethog. Bwriad hyn yw i gefnogi ei gilydd, i rannu arferion da ac i leihau'r baich yn lleol ac i gyfrannu at fanc adnoddau rhanbarthol fydd ar gael i ysgolion ar draws y rhanbarth wrth iddynt baratoi eu darpariaeth i ddisgyblion. Yn y sector uwchradd, mae'r ysgolion wedi ffurfio tair Cynghrair Cydweithio (Arfon, Meirion a Dwyfor) gyda'r bwriad o rannu adnoddau yn y lle cyntaf - drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE – ac yna i symud ymlaen i sicrhau cydweithio ar feysydd megis Cwricwlwm i Gymru. Mae'r cynghreiriau hefyd yn fodd i ysgolion gefnogi ei gilydd pan fydd senarios gwahanol yn codi yn sgil y pandemig e.e. potensial rhannu arbenigeddau, sefydlu rhwydweithiau pynciau lleiafrifol ac ati, a chefnogi efo prosesau asesu ffurfiol CA4 a 5. Ariennir y clystyrau / cynghreiriau hyn gan y consortiwm.

Mae'n debyg y bydd angen llawer o waith pan fydd y disgyblion yn ôl yn yr ysgolion i adennill a datblygu defnydd llawer o ddisgyblion o'r Gymraeg. Bydd GwE a'r Awdurdod yn parhau i gydweithio i baratoi arweiniad, cefnogaeth ac adnoddau i'r ysgolion yn barod at hyn.

Mae monitro ac arfarnu effaith a chynnydd dros y cyfnod wedi profi'n heriol. Byddwn yn parhau i weithio efo'r ysgolion dros y tymor yma a'r nesaf i sicrhau bod ganddynt ddarlun clir o'u cryfderau , y meysydd sydd

angen sylw ac i sicrhau eu bod yn barod i bontio dros y cyfnod clo i baratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Rydym wedi bod yn cydweithio yn agos gydag ymgynghorwyr o Gonsortia eraill drwy Gymru er mwyn sicrhau bod Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth effeithiol ar gael ar ffurf rithiol i'r gweithlu. Maent ar gael i ymarferwyr ar bob cam o'u gyrfa - o'r athro newydd gymhwyso i'r pennaeth profiadol a byddant yn dechrau tymor nesaf i gefnogi arweinwyr ar bob lefel. Mae'n fwriad gennym i barhau i edrych ar beth sydd wir angen ar arweinwyr yn ystod cyfnod dyrys y Pandemig er mwyn iddynt allu arwain eu hysgolion yn llwyddiannus. Yn ychwanegol i hyn mae cyfres o weithdai i arweinwyr canol ar 'Arweinyddiaeth Ganol Ragorol mewn cyfnod o aflonyddwch', gyda nifer o arweinwyr canol o Wynedd wedi mynychu'r hyfforddiant.